JONES, EVAN (TALFRYN) (1857 - 1935), gweinidog gyda'r Bedyddwyr

Enw: Evan (Talfryn) Jones
Dyddiad geni: 1857
Dyddiad marw: 1935
Rhiant: Mary Jones
Rhiant: Evan Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Bedyddwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 26 Mai 1857 ym Moel-y-crio, Helygain, Sir y Fflint, yn unfed ar ddeg o 12 plentyn Evan a Mary Jones. Methodistiaid oedd ei rieni, ond ymunodd ef ag eglwys y Bedyddwyr yn Ainon, Pont-y-gof; bedyddiwyd ef 24 Mawrth 1872, a dechreuodd bregethu yn 1878. Aeth i ysgol yn Llangollen yn 1879, ac yn 1880 i athrofa'r Bedyddwyr yno. Bu'n fugail Pont-y-gof (1881), Penrhyn-coch (1882), Blaen-y-waun (Mawrth 1883), a Llwyn-y-pia (Mai 1892). Ar 23 Rhagfyr 1900 sefydlwyd ef yn Seion, Llanelli, ac yno y bwriodd weddill ei yrfa. O Awst 1918 hyd Fawrth 1923 analluogwyd ef, ond ailgydiodd yn ei waith hyd fis Rhagfyr 1929, pan ymddeolodd. Bu farw 6 Gorffennaf 1935. Cydnabyddid ef yn un o bregethwyr mwyaf ei ddydd. Ymddiddorai hefyd yn hanes ei enwad, a chyhoeddodd ysgrifau yn *Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru*, ar Titus Lewis (1908-9), eglwys Cilfowyr (1913-4), a David Jones, Caerfyrddin (1932).

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Hanes Eglwys Capel Sion, Llanelli (Llanelli 1931), yn bennaf 92-115 (gan Benjamin Humphreys)

Seren Gomer, 1936, 41-52, 148-53

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 106848201

Wikidata: Q20733031

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Jenkins, R. T., (1953). JONES, EVAN (TALFRYN) (1857 - 1935), gweinidog gyda'r Bedyddwyr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c1-JONE-EVA-1857

Copïo ir clipfwrdd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government